TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET
CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE

PWNC/SUBJECT:

Rhoi cymeradwyaeth ôl weithredol i sefydlu Tai Teg, sef dull o gofrestr diddordeb o bobl sydd â diddordeb mewn prynu tŷ, ond nad ydynt ar hyn o bryd yn gallu fforddio prynu ar y farchnad agored. Sefydlwyd Tai Teg gan Gyngor Ynys Môn a Chyngor Gwynedd ac fe'i gweinyddir gan Grŵp Cynefin ar ein rhan.

To approve retrospective implementation of the establishment of Tai Teg, this is a register of interested people who wish to buy a home, but are unable to afford to buy on the open market. Tai Teg was established by Gwynedd and Ynys Mon Councils and is administrated by Grŵp Cynefin on our behalf.

AELOD CABINET/CABINET MEMBER Cynghorydd John Wyn Williams

PENDERFYNIAD/DECISION

Ar sail nad oes cofnod bod Tai Teg wedi cael ei gymeradwyo yn ffurfiol, rhoddir y cais ôl gweithredol hwn er mwyn gallu arwyddo'r cytundeb lefel gwasanaethau ar y cyd â Chyngor Ynys Môn a Grŵp Cynefin i gynnal a gweinyddu'r gofrestr.

On the basis that no record exists Tai Teg has been formally approved, this retrospective application is made so that that the service level agreement can be signed between Cyngor Ynys Mon and Grŵp Cynefin which maintain and administer the register.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/REASONS FOR THE DECISION

Mae cofrestr annibynnol, Tai Teg, wedi ei sefydlu er mwyn ceisio helpu unigolion sydd â diddordeb mewn perchnogaeth tŷ yn siroedd Gwynedd a Môn ond sydd methu prynu tŷ ar y farchnad agored ar hyn o bryd.

Derbyniwyd grant gan LLC, yn 2009 i ddatblygu'r gofrestr a bu yn cael ei arwain gan Swyddogion o'r ddau Gyngor.

Mae posib defnyddio Tai Teg i hysbysu'r gwahanol fathau o dai fforddiadwy sydd ar gael megis datblygiadau tai canolraddol gan Gymdeithasau Tai, Cymorth Prynu, tai fforddiadwy yn nol i ddefnydd a thai gydag amodau 106 arnynt. Mae'r gofrestr yn fodd o gysylltu gyda'r unigolion i hyrwyddo cynlluniau penodol.

Yn strategol, mae'r bas data yn cael ei ddefnyddio er mwyn adnabod ardaloedd lle mae angen am dai ac yn cynorthwyo'r drefn o flaenoriaethu datblygiadau am dai fforddiadwy. Mae'r data yn cael ei defnyddio i gefnogi polisi tai /cynllunio, rhoi sylwadau ar geisiadau cynllunio a chyflwyno ceisiadau am gyllid/ grantiau.

An independent register, Tai Teg, has been established in order to assist individuals who have an interest in buying a home within Gwynedd and Mon but are unable to buy on the open market at this time.

A grant was received from WG in 2009 to develop the register which is led by Officers in both Councils.

It is possible to utilize Tai Teg to advertise different types of affordable housing schemes such as intermediate rent by housing associations, Home Buy, affordable

homes which have come back into use and houses with S106. The register is a way of connecting individuals to promote specific schemes.

Strategically, the data base is utilized to identify areas of housing need and assists in the process of priortising areas for affordable housing. The data is used to support housing / planning policy, provide comment on planning applications and used for attracting funding / grants

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ RELEVANT CONSIDERATIONS

Mae cost o £4,500 i gynnal y gofrestr yn cael ei rhannu rhwng Cyngor Ynys Môn a Chyngor Gwynedd er mwyn i Grŵp Cynefin weinyddu'r gofrestr. Mae'r gost yn daladwy bob 3 mlynedd ac yn cynyddu yn flynyddol yn unol â % RPI.
Yn dilyn dyraniad grant i sefydlu'r gofrestr mae'r costau o gynnal y gofrestr yn cael eu talu gan Adran Strategol Tai.

A cost of 4,500 is required to maintain the register which is shared between Cyngor Ynys Mon and Gwynedd so that Grwp Cynefin are able to administer the list. The sum is payable every 3 years and increases each year in accordance with % RPI. Following utilization of the grant the associated cost of maintaining the list are borne by the Strategic Housing Unit.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/VIEWS OF STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr/Chief Executive:-

Dim i'w ychwanegu gan mai tacluso rhywbeth sydd eisoes yn weithredol a gwerthfawr y mae hwn

Nothing to add as it is tidying up a matter which is operational and worthwhile

2. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:-

Mae'r adroddiad yn caniatau arwyddo cytundeb ffurfiol ynglyn a chynllun sydd eisioes ar y gweill er ei symud ymlaen. Dim sylwadau pellach ynglyn â phriodoldeb.

The report allows the formal agreement to be signed on a scheme which is already operational and can move forward. No other comment on propriety matters

3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:-

Bydd costau yn cael eu hariannu o gyllideb sydd eisoes yn ei le. Nid oes gennyf wrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

The costs will be funded from budgets that are already in place. I have no objections from the perspective of financial propriety

BARN YR AELOD LLEOL/VIEW OF LOCAL MEMBER

Ddim yn berthnasol

LLOFNOD /SIGNED

DYDDIAD/DATE
19/9/14